Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Springfield @ Conwy**
**Ffordd Penmaen**
**Y Morfa**
**Conwy**
**LL32 8HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2013**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Meithrinfa Conwy yn 1994 a chafodd ei chymryd drosodd gan Springfield Day Nurseries yn Ionawr 2010. Mae`n darparu ar gyfer plant rhwng 3 mis oed a 5 mlwydd oed ac mae darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer plant i fyny at 11 oed.

Mae`r Feithrinfa wedi ei chofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i gymryd i fyny at 58 o blant o bob oedran ac uchafswm o 18 o blant yn yr ystafell i blant cyn oed ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 18 o`r plant 3 oed yma ar y gofrestr ond mae llai na hyn yn mynychu unrhyw un o`r sesiynau (bore neu brynhawn). Mae dau o'r plant yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Conwy a Phartneriaethau Gofal Plant (EYDCP).

Mae`r plant yn dod o gartrefi nad ydynt o dan fantais neu anfantais cymdeithasol-economaidd yn arbennig, ac yn bennaf o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae rhai yn ddwyieithog. Nid oes un o`r plant sydd yno ar hyn o bryd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu wedi cael eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae'r Feithrinfa yn hapus i dderbyn plant o bob gallu ac ethnigrwydd.

Er mai Saesneg yw`r brif gyfrwng cyfathrebu, mae`r holl staff, i wahanol raddau, yn sgwrsio gyda'r plant yn y Gymraeg ac yn annog eu sgiliau dwyieithog.

Mae Meithrinfa Conwy wedi ei lleoli mewn lleoliad sydd wedi`i adeiladu`n bwrpasol. Mae'r prif adeilad yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Mae'n cael ei amgáu gan ffens ddiogel a`i warchod gan gamerâu diogelwch. Mae digon o le parcio ar gyfer staff a rhieni. Mae'r adeiladau ar gyfer y plant 3 oed, fodd bynnag, yn bortacabin wrth ymyl un ochr o`r prif adeilad. Mae hyn yn rhoi i blant y cyfleusterau toiled angenrheidiol a mynediad at ardal chwarae, sydd wedi`i datblygu`n dda, tu allan yng nghefn y Feithrinfa. Er bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r ystafell hon, nid yw'n cyrraedd safon gweddill y Feithrinfa, o ran ansawdd. Fodd bynnag, mae`r ystafell wedi ei chynllunio'n dda i fodloni anghenion y plant gydag ardaloedd o weithgareddau gwahaniaethol a lle i arddangos.

Mae`r ardal chwarae a gweithgareddau tu allan yn ddeniadol ac yn darparu ardaloedd wyneb caled i'r plant chwarae gyda theganau symudol. Mae ardal glaswellt yn ogystal â gardd wedi'i ffensio. Mae'r ardal y tu allan yn cael ei chynnal gan sefydliad Springfield ac yn golygu bod gan blant adnodd gwerthfawr.

Cafodd y Feithrinfa ei arolygu yn flaenorol gan Estyn ym mis Mawrth 2007 o dan y rheolwyr blaenorol. Nid yw'r adroddiad cynnydd sy'n deillio o'r arolygiad ar gael. Fodd bynnag, mae'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad wedi cael sylw. Mae'r adroddiad diweddaraf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn tynnu sylw at beth sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth ac mae'r rhain yn y broses o gael eu gweithredu

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Nodweddion da

- Y safonau sydd wedi`u cyflawni a'r cynnydd a wnaed gan blant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles plant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer goruchwylio gofal plant, cymorth ac arweiniad.
- Y trefniadau partneriaeth gyda rhieni.
- Effaith yr arweinyddiaeth ar les plant.
- Ansawdd y berthynas rhwng oedolion a phlant.
- Ansawdd yr hunanarfarnu.

Digonol

- Ansawdd yr asesu.
- Defnydd o`r asesu wrth gynllunio.
- Yr ystafell ar gyfer y plant Meithrin.

**Rhagolygon gwella**

- Ansawdd yr adroddiad hunanarfarnu.
- Hanes y lleoliad o welliant, yn enwedig datblygu`r ardal tu allan.
- Ansawdd yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant.
- Cefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol yn nhermau`r cyrsiau a chefnogaeth yr athrawes ymgymghorol.
- Mae`r Feithrinfa`n agored i syniadau newydd.

## Argymhellion

Mae angen i`r lleoliad:

(i) ddatblygu`r gweithdrefnau asesu sydd newydd eu sefydlu er mwyn nodi medrau dysgu`r plant:
(ii) defnyddio asesu wrth gynllunio er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant fel bod y tasgau`n heriol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig yn yr holl feysydd dysgu gan ystyried eu man cychwyn. Mae plant yn cymryd rhan yn weithredol ac yn cymryd rhan yn gyson mewn gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae eu sgwrs yn dangos eu bod yn meddwl am eu tasgau ac am wneud dewisiadau yn seiliedig ar eu diddordebau.

Mae medrau cyfathrebu`r plant yn datblygu'n dda. Mae ganddynt yr hyder i siarad gydag ymwelydd gan wneud eu hunain yn dealladwy ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio geirfa dda. Mae`r plant yn gwrando ar oedolion ac yn ymateb yn briodol. Maent yn dangos diddordeb mewn storïau ac yn dal eu llyfrau stori gan droi tudalennau yn briodol. Maent yn adnabod eu cardiau enw yn ystod cofrestru. Mae`r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio, gan gynnwys sialc, pensiliau a phennau ysgrifennu lliw. Maent yn dechrau deall pwrpas ysgrifennu.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn dechrau cyfrif gyda llawer yn cyfrif yn gywir i 7. Maent yn adnabod ac yn matsio patrymau. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau deall iaith fathemategol sylfaenol, megis "mwy" a "llai". Maent yn mwynhau canu rhigymau mathemategol megis "Pum broga bach". Mae`r plant yn defnyddio teganau rhaglenadwy ac mae hyn yn datblygu eu cysyniad o gyfrif a chyfarwyddiadau.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg ac yn ymateb yn briodol. Mae'n amlwg eu bod yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad. Maent yn gwrando ac yn ymateb i frawddegau Cymraeg a'r cwestiynau a gofynnir gan oedolion ac mae`r plant yn dangos eu cymhwysedd yn y Gymraeg wrth ymateb i gyfarchion, fel defnyddio "bore da".

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau a osodir ar eu cyfer, yn cynnal eu canolbwyntio am gyfnod sylweddol o amser ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn sensitif iawn i awgrymiadau a chyfarwyddiadau a roddir gan oedolion ac yn dangos sgiliau rhyngbersonol da gan ymwneud yn dda â'i gilydd.

Mae`r plant yn dechrau gwerthfawrogi pwysigrwydd bwyta'n iach gan fwynhau ffrwythau a llysiau. Mae'r Feithrinfa yn eu darparu ag amgylchedd diogel ac mae ymddygiad y plant yn dangos eu bod yn rhydd o gam-drin corfforol neu eiriol yn y lleoliad.

Yn gyffredinol, mae plant yn elwa ar yr amgylchedd tawel a chefnogol a ddarperir ar eu cyfer, gan eu galluogi i dyfu o ran hyder ac i wneud penderfyniadau am eu bywyd yn y lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb y plant a`u cymell a thrwy cynnal cyflymder da i'r wers. Mae`r cynllunio yn seiliedig ar dempled sy'n ymgorffori gweithgareddau sy'n llwyddo i arwain y plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn dangos datblygiad systematig y plant o fedrau allweddol yn ddigon cyson.

Mae`r gweithgareddau dysgu yn llwyddo i annog plant i ffurfio perthynas dda ac i ddangos goddefgarwch tuag at ei gilydd. Nodwedd gref yw hyder y plant i a`u gallu i wneud dewisiadau.

Mae gwaith plant yn dangos fod eu medrau creadigol yn datblygu'n dda gan ddefnyddio ystod dda o ddeunyddiau, lliwiau a dychymyg. Mae digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol trwy ddefnyddio offer chwarae mawr a sgiliau llawdrin manwl. Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd priodol i ddatblygu`r Gymraeg yn arbennig yn ystod cofrestru ac amser cylch.

Mae ardal yr ardd y tu allan yn galluogi plant i werthfawrogi planhigion yn tyfu a'r gofal sydd ei angen arnynt. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu cynefinoedd ar gyfer trychfilod. Mae plant yn dechrau ennill sgiliau personol a fydd yn eu galluogi i gael mynediad i`r holl feysydd dysgu.

Anogir pob plentyn yn addas i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a rhoddir pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru. Mae plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys samplu cacennau Cymreig a thrwy waith celf cynrychiolydd. Mae plant hefyd yn dysgu am wledydd eraill, fel dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae cyfleoedd ar waith i blant ddysgu am ailgylchu, gan gynnwys ailgylchu papur gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae`r dulliau addysgu a chynllunio yn dangos bod ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant a dealltwriaeth sydd wedi`i datblygu'n dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o blant, sy'n cael eu gwireddu yn enwedig yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae`r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion, dan do ac yn yr awyr agored. Mae`r staff yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael plant i weithio'n annibynnol. Mae`r gweithgareddau yn cynnal diddordeb y plant yn llawn ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn cymryd rhan weithredol. Mae`r oedolion yn fodelau iaith da ac mae ymdrech dda yn cael ei wneud i ddatblygu gallu `r plant yn yr iaith Gymraeg.

Mae ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac yn defnyddio holi yn briodol i ddatblygu eu sgiliau meddwl. Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r

arsylwadau yn cael eu cofnodi. Mae'r rhain yn cael eu dyddio sy`n galluogi gall cynnydd plant gael eu monitro. Mae cofnodion o gyflawniad plant yn cael eu casglu mewn llyfr i bob plentyn, sef "My Treasure Book".

Nid yw`r asesu, fodd bynnag, bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu sgiliau plant ac nid yw`r canlyniadau yn cael eu defnyddio`n ddigonol i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Nid yw sgiliau a thasgau yn cyfateb yn gyson dda i anghenion plant ac nid ydynt yn nodi`r camau nesaf yn glir yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae'r rhaglen a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer asesu "Y Daith Ddysgu" yn cael ei chyflwyno i adfer y diffyg hwn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae'r amgylchedd y tu allan ac ymweliadau â'r ardal leol yn datblygu ymdeimlad plant o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas. Mae'r ardd yn darparu`r plant â phrofiadau o dyfu a gofalu am hadau ac yn gwneud iddynt sylweddoli o lle mae rhai o'n bwyd yn dod.

Mae'r awyrgylch da iawn yn y Feithrinfa yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae`r gweithgareddau o ddydd-i-ddydd yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir, i gymryd cyfrifoldeb ac i ddeall yr angen i rannu gydag eraill.

Mae gan blant ddealltwriaeth dda o reolau ymddygiad a'r hyn a ddisgwylir ganddynt a sut i gymryd rhan yn eu cymuned meithrin.

Mae ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac yn rhoi cefnogaeth ofalgar iddynt. Mae'r berthynas dda rhwng y rhieni yn hwyluso'r gofal ac anwyldeb mae`r staff yn darparu ar gyfer plant. Lle bo angen, mae cefnogaeth broffesiynol ar gael a chysylltiadau effeithiol yn eu lle.

Mae'r holl staff wedi mynychu cyrsiau diweddar a pherthnasol ar amddiffyn plant ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r trefniadau a wneir gan y Feithrinfa ar gyfer amddiffyn plant. Mae `r Feithrinfa yn amgylchedd diogel, ac ni all neb fynd i mewn yn ddirybudd. Mae`r ffensio yn ddiogel gyda chamerâu fideo yn eu lle.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn achosi unrhyw bryder.

Mae'r arweinydd wedi mynychu cyrsiau gan yr awdurdod lleol i alluogi`r Feithrinfa i dderbyn a darparu cymorth o ansawdd ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys rhai sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol. Byddai`r Feithrinfa yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ar hyn o bryd nid oes plant o'r fath yn bresennol ond mae trefniadau yn eu lle pe byddai eu hangen.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gwbl gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i'r holl weithgareddau.  Mae agwedd oddefgar yn treiddio y Feithrinfa ac yn sicrhau bod pob plentyn yn rhydd o bob math o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.  Does dim achosion o wahaniaethu wedi digwydd.

Mae'r Feithrinfa wedi`i staffio yn hael gyda myfyriwr ychwanegol ar hyn o bryd ar leoliad yn ystod yr arolygiad.  Mae gan staff gymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio gyda phlant.

Mae Meithrinfa Conwy yn cael ei lleoli mewn adeilad sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda, yn gynnes ac wedi'i goleuo'n dda.  Mae'n ddiogel ac ni all neb fynd i mewn yn ddirybudd.  Mae trefniadau da yn eu lle i gwrdd a darparu ar gyfer ymwelwyr.  Mae`r plant 3 oed yn cwrdd mewn caban, ac er ei ddefnyddir yn effeithiol, nid yw'n cyflwyno yr un safon o leoliad â gweddill yr adeilad.  Fodd bynnag, gwneir y defnydd gorau o`r lleoliad hwn sydd â thoiled a chyfleusterau golchi.  Mae`r meysydd gweithgaredd yn cael eu gosod ar gyfer y plant ac mae`r adnoddau yn cael eu storio'n briodol.  Mae`r ardaloedd storio ar y cyfan o fewn cyrraedd y plant.  Nid oes unrhyw awgrym yn y meysydd gweithgaredd o`r sgiliau addas y gellid eu datblygu.

Mae'r ardal y tu allan yn ddiogel ac mewn cyflwr da ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.  Mae dillad addas ar gael i blant eu gwisgo yn ystod tywydd garw.  Yn ystod yr arolygiad, roedd y plant yn defnyddio'r awyr agored ar y ddau ddiwrnod ac yn mwynhau eu hunain.  Roedd y plant yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gweithgareddau gan oedolion.  Fodd bynnag, nid yw'r trefniant yn darparu ar gyfer mynediad rhydd i'r tu allan ar gyfer plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae Meithrinfa Conwy yn weinyddol drefnus ac mae'r holl staff yn deall eu rolau.  Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir a staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.  Mae ymdeimlad o bwrpas yn amlwg a dros y blynyddoedd mae hyn wedi hyrwyddo a chynnal gwelliannau.  Mae ethos cadarnhaol a'r holl staff yn rhannu`r gwerthoedd o ddarparu darpariaeth o`r ansawdd gorau ar gyfer y plant.  Mae anghenion plant yn hollbwysig i'r holl benderfyniadau sy`n cael eu gwneud, ac mae`r berthynas dda gyda rhieni yn anogaeth iddynt i gefnogi dysgu eu plant.

Mae'r grŵp rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn deall eu rolau.  Mae'r rheolwr yn gwybod yn dda am safon y ddarpariaeth ac yn darparu cefnogaeth dda.  Mae staff newydd yn cael eu sefydlu ac mae'r holl staff yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.  Mae`r cyfarfodydd gwerthuso yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygiad staff trwy gyrsiau o natur bersonol a phroffesiynol. Cynhelir cyfarfodydd staff wythnosol.  Yn gyffredinol, mae hyn wedi sicrhau ansawdd yr addysg a ddarperir ar gyfer y plant.

Mae'r rheolwr wedi sicrhau bod penderfyniadau effeithiol yn cael eu gwneud ac yn flaengar o ran datblygu`r Feithrinfa ymhellach. Mae hi wedi sicrhau bod yr holl ddyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni.

Mae'r Feithrinfa yn parhau i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn ei le, a mentrau bwyta`n iach a blaenoriaethau fel Cynllun Gwên ar waith.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu manwl wedi cael ei wneud cyn yr arolygiad. Mae hyn wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae mentrau diweddar, fel datblygu`r amgylchedd awyr agored, wedi arwain at enillion cadarnhaol ar gyfer y plant.

Mae cynllun realistig ar gyfer datblygu yn ei le yn seiliedig ar y broses hunanarfarnu. Mae angen gwneud gwelliannau pellach er mwyng alluogi bod blaenoriaethau`n cael eu sefydlu gyda graddfa amser addas a gwerthusiad o`r cynnydd.

Mae'r holl staff wedi mynychu amrywiaeth o gyrsiau proffesiynol a drefnir gan yr Awdurdod Lleol ac mae hyn wedi cael effaith dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r plant sy'n mynychu'r Meithrin yn dod o ddalgylchoedd nifer o ysgolion cynradd lleol. Cyn eu trosglwyddo, mae plant yn mynychu'r ysgol berthnasol mewn sesiwn "blasu". Mae hyn yn briodol ac yn eu galluogi i drosglwyddo yn hawdd.

Mae rhieni yn llwyr gefnogol o`r Feithrinfa. Mae'r Feithrinfa yn gweithredu polisi drws agored sy'n galluogi rhieni i gael mynediad at staff y Feithrinfa ar unrhyw adeg. Anogir rhieni hefyd i aros gyda'u plant am gyfnodau estynedig o amser os oes angen. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, roedd y plant yn hapus i adael eu rhieni ac yn frwdfrydig i gymryd rhan mewn gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Roedd y staff, fodd bynnag yn cwrdd â'r holl blant ac roedd yn amlwg eu bod yn cyfarch y plant gyda hoffter. Maent hefyd ar gael i gyfarfod â rhieni a thrafod materion sy'n effeithio`u plant.

Mae'r Feithrinfa yn manteisio o'r gefnogaeth a ddarperir gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar (EYDCP) ac athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol. Mae hon yn bartneriaeth effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff yn cael eu defnyddio'n dda ac yn gwybod eu cyfrifoldebau. Mae`r disgrifiadau swydd yn glir ac mae'r holl staff yn derbyn eu rolau yn llawn. Mae gan y Feithrinfa ddigon o adnoddau i ysgogi plant. Mae'r Feithrinfa yn cynllunio ar gyfer adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol. Defnyddir yr ardal yn yr awyr agored yn dda i ddatblygu dysgu`r plant.

Ar y cyfan, mae`r Feithrinfa yn darparu gwerth da am arian gan ddefnyddio ei adnoddau yn effeithlon.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes unrhyw sylwadaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae`r plant yn amlwg yn mwynhau eu hamser yn y Feithrinfa. Roeddent yn awyddus i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a nodwedd amlwg yw eu hunan-hyder. Mewn trafodaeth, maent yn sôn am eu hoff bethau penodol gan gynnwys edrych ar lyfrau, gwrando ar storïau a chwarae y tu allan gyda'u ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |